CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL**
BODLONDEB, BANGOR ROAD, CONWY LL32 8DU
Gwasanaethau Cwsmeriaid Budd-daliadau: 01492 576491
Ffacs: 01492 576260
Ni ddylid defnyddio ffacs ar gyfer cyflwyno achosion

# Taliadau Tai Dewisol
# Taflen a ffurflen gais

**Beth yw Taliadau Tai Dewisol?**
Mae Taliadau Tai Dewisol yn darparu cymorth ariannol pellach i gwsmeriaid sy'n cael Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol (sy'n cynnwys elfen ar gyfer Cost Tai), os ydynt mewn angen eithriadol gyda'u costau tai.
Mae Llywodraeth y DU yn rhoi cyllideb gyfyngedig i bob Awdurdod Lleol bob blwyddyn ariannol er mwyn helpu'r rheini sydd â'r angen mwyaf.

**Beth yw costau tai?**
Yn gyffredinol, mae costau tai yn golygu atebolrwydd rhent, ond caiff costau tai eu dehongli yn ehangach i gynnwys: Rhent ymlaen llaw; Blaendaliad Rhent;
Costau cyfandaliad eraill sy'n gysylltiedig ag anghenion tai megis costau symud, neu wiriadau credyd ar gyfer asiantau gosod.

**Beth yw'r meini prawf i fod yn gymwys i dderbyn Taliad Tai Dewisol?**
Mae'n rhaid eich bod eisoes yn cael Budd-dal Tai (BT) neu Gredyd Cynhwysol (CC) ym Mwrdeistref Conwy sy'n cynnwys elfen ar gyfer Costau Tai ac yn wynebu diffyg mewn costau tai yr ydych wedi methu i neilltuo arian ar ei gyfer.

**Pa fath o ddiffygion o ran costau tai y gall Taliad Tai Dewisol eu cynnwys?**
Gostyngiadau Uchafswm Budd-daliadau i fudd-dal tai neu elfen Cost Tai Credyd Cynhwysol.
Gostyngiad tan-feddiannaeth (sector tai rhent cymdeithasol) i fudd-dal tai neu elfen Cost Tai Credyd Cynhwysol. Cyfyngiadau Lwfans Tai Lleol i fudd-dal tai neu elfen Cost Tai Credyd Cynhwysol.
Didyniad annibynnydd o fudd-dal tai neu gyfraniad Cost Tai at Gost Tai Credyd Cynhwysol. Gostyngiadau Tapr Incwm.
Cyfyngiadau Swyddog Rhent, megis rhent cyfeirio lleol neu gyfradd llety a rennir.
Diffygion mewn rhent i atal teulu rhag bod yn ddigartref tra bod yr Adran Dai yn edrych ar ddewisiadau eraill.

**Blaendaliadau Rhent, Rhent Ymlaen Llaw, Costau Symud, Gwiriadau Credyd ar gyfer asiantau gosod.**
Gellir dyfarnu Taliadau Dewisol Tai am yr uchod ar gyfer eiddo y mae ymgeisydd eto i symud i mewn iddo. Mae'n rhaid bod yr ymgeisydd yn cael Budd-dal Tai neu elfennau Costau Tai Credyd Cynhwysol yn eu cyfeiriad presennol o fewn Bwrdeistref Conwy, a dylai'r eiddo newydd fod yn fforddiadwy ar gyfer yr ymgeisydd.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cais, ffoniwch Swyddfeydd Budd-daliadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am gyngor.**
**Gwasanaethau Cwsmeriaid Budd-daliadau: 01492 576491**
**Gwasanaeth Text Relay BT: 18001 01492 576491 neu ewch i un o swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a nodir ar dudalen 12**
**Neu drwy e-bostio: hben.enquiries@conwy.gov.uk**
**a drwy'r post i: Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau, CBSC, Bodlondeb, Bangor Road, Conwy LL32 8DU**
**Efallai y bydd eich galwad yn cael ei recordio er dibenion hyfforddi a monitro**

**Os oes arnoch chi angen copi o'r ffurflen hon yn Saesneg, Braille neu mewn print bras, cysylltwch â'r swyddfa hon. Mae gennym ni hefyd fynediad at wasanaeth cyfieithu 24 awr dros y ffôn o'r enw "The Big Word".**

**Beth na ellir defnyddio Taliadau Tai Dewisol ar eu cyfer?**
Ni ellir defnyddio Taliadau Tai Dewisol ar gyfer y canlynol:

- newidiadau gwasanaethau anghymwys i rent cwsmer, megis taliadau dŵr ac ati
- cymorth gyda thaliadau Treth y Cyngor.
- cynnydd mewn rhent o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent
- cosbau penodol a gostyngiadau mewn budd-daliadau a nodir fel a ganlyn:
- unrhyw ostyngiad mewn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm yn sgil

Cyfarwyddyd Gostwng Budd-dal am fethu cydymffurfio â'r Asiantaeth Cynnal Plant o ran trefnu gwaith cynnal a chadw. Mae'r RDA yn ostyngiad mewn budd-dal o 40% o'r lwfans personol ac ond yn berthnasol i Gymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith (IB).

- unrhyw ostyngiad mewn budd-dal yn sgil methu mynychu cyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith. Mae hyn yn berthnasol lle mae'r Budd-dal Tai yn cael ei leihau a pan fydd unrhyw fudd-dal arall, fel Cymhorthdal Incwm, yn destun cosb.
- unrhyw ostyngiad neu golli budd-dal yn sgil cosb cyflogaeth Lwfans Ceisio Gwaith. Nid yw Lwfans Ceisio Gwaith yn daladwy am y cyfnod o gosb os bydd y cwsmer wedi cyfrannu tuag at ei statws di-waith, er enghraifft, drwy adael cyflogaeth yn wirfoddol neu fethu mynychu cynllun hyfforddi penodedig.

Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd cyfradd ostyngol Lwfans Ceisio Gwaith yn cael ei dalu dan ddarpariaethau caledi Lwfans Ceisio Gwaith.

- unrhyw ostyngiad mewn budd-dal oherwydd cosb Lwfans Ceisio Gwaith ar gyfer rhai 16/17 oed - mae hyn ar gyfer rhai pobl sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith dan Gyfarwyddyd Caledi Difrifol. Nid yw Lwfans Ceisio Gwaith yn daladwy am y cyfnod o gosb os bydd y cwsmer wedi cyfrannu tuag at ei statws di-waith, er enghraifft, drwy adael cyflogaeth yn wirfoddol neu fethu mynychu cynllun hyfforddi penodedig, neu
- unrhyw gyfyngiad mewn budd-dal o ganlyniad i dorri gorchymyn gwasanaeth cymunedol
- Budd-dal Tai/Credyd Cynhwysol sydd wedi cael ei ohirio oherwydd bod y cwsmer wedi methu â darparu'r wybodaeth ofynnol ar gyfer yr hawliad.
- Diffygion a achosir drwy adennill Budd-dal Tai o hawliad cwsmer.

**Sut ydw i'n ymgeisio am Daliad Tai Dewisol?**
Bydd angen i chi lenwi a dychwelyd y ffurflen gais ynghlwm ac anfon tystiolaeth gefnogol (naill ai gyda'ch cais neu ar ddyddiad diweddarach) i'r Swyddfa Budd-daliadau, Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Swyddfeydd y Cyngor, Bangor Road, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU neu ymweld ag un o swyddfeydd budd-daliadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y mae'r manylion ar dudalen 12.

**Sut mae penderfynu a ddylid dyfarnu Taliad Tai Dewisol?**
Erbyn hyn, mae ymagwedd fwy cyson wrth weinyddu Taliadau Tai Dewisol yng Nghymru lle mae system bwyntiau wedi cael ei datblygu. Mae wedi'i gynllunio i wneud penderfyniadau dewisol yn fwy systematig, cyson a thryloyw. Fodd bynnag, ni fwriedir iddo gyflwyno datrysiad un ateb i bawb. Mae arfer disgresiwn yn parhau i fod wrth wraidd y cynllun. Eglurir hyn yn fanylach yn y Polisi Taliadau Tai Dewisol.
*http://www.conwy.gov.uk/doc.asp?cat=7255&doc=25178&Language=2*

**Sut byddaf yn cael gwybod beth yw'r penderfyniad ynghylch fy nghais**
Byddwch yn cael gwybod am y penderfyniad trwy lythyr o fewn 10 diwrnod gwaith, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny. Os yw'ch cais yn llwyddiannus bydd y llythyr yn nodi dyddiad dechrau a gorffen eich hawliad ac at bwy yr anfonir y taliad. Nid yw Taliad Tai Dewisol yn fudd-dal diddiwedd. Nid oes unrhyw sicrwydd, os ydych yn gwneud cais arall ar ôl i'ch Taliad Tai Dewisol ddod i ben, y byddwch yn derbyn taliad pellach; hyd yn oed os yw'ch amgylchiadau yr un fath.
Byddwch hefyd yn cael gwybod drwy lythyr os nad ydych yn llwyddiannus.

**Hyd y dyfarniad**
Bydd hyd y dyfarniad Taliad Tai Dewisol yn dibynnu ar amgylchiadau'r ymgeisydd/ teulu. Nid oes isafswm cyfnod ar gyfer dyfarniad, a allai fod yn daliad untro ar gyfer costau rhent ymlaen llaw/blaendal rhent/symud. Gallai taliad cyfnodol fod am ychydig wythnosau, ond yn gyffredinol caiff ei wneud rhwng 13 a 26 wythnos. Y nifer mwyaf o wythnosau ar gyfer Taliad Tai Dewisol yw 12 mis, enghraifft o achos o'r fath fyddai os yw eiddo wedi'i addasu'n benodol ar gyfer anghenion unigolyn,

**A allaf apelio yn erbyn y penderfyniad a wnaed ar fy hawliad?**
Os ydych yn anghytuno â'r penderfyniad, bydd yn rhaid i chi anfon llythyr arall i'r Swyddfa Budd-daliadau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bangor Road, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU o fewn mis calendr o'r penderfyniad gwreiddiol yn gofyn am apêl gan nodi pam nad ydych chi'n fodlon gyda'r penderfyniad. Bydd Uwch Swyddog Budd-daliadau gwahanol yn ystyried yr apêl a bydd yn anfon llythyr atoch chi yn nodi canlyniad eich apêl o fewn 10 diwrnod gwaith neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

**Beth ddylwn i ei wneud os yw fy amgylchiadau yn newid?**
Os yw eich amgylchiadau yn newid, mae'n rhaid i chi ddweud wrth Swyddfa Budd-daliadau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bangor Road, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU cyn gynted ag y bo modd. Efallai y bydd ar y Swyddfa Budd-daliadau angen adolygu eich dyfarniad Taliad Tai Dewisol. Os yw'ch amgylchiadau newydd yn golygu eich bod wedi cael arian nad oes gennych hawl iddo, efallai y byddwn yn gofyn i chi ei dalu'n ôl.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL
BODLONDEB
BANGOR ROAD
CONWY
LL32 8DU
Ffôn: 01492 576491
hben.enquiries@conwy.gov.uk

| At ein defnydd ni yn unig | |
|---|---|
| Cyfeirif: | |
| Dyddiad cyhoeddi | |
| Rheswm dros gyhoeddi | |

# FFURFLEN GAIS TALIAD TAI DEWISOL

**Enw llawn a theitl**

**Cyfeiriad presennol:**
(gan gynnwys ystafell / rhif fflat)

**Rhif Yswiriant Gwladol**    **Dyddiad Geni** / /

**Rhifau Ffôn:** Rhif ffôn tŷ    Rhif ffôn symudol

**Cyfeirif Budd-dal Tai:**    **Cyfeiriad e-bost** (dewisol)

**1. Pa fath o gymorth sydd ei angen arnoch?** (ticiwch)

- ☐ **UN TALIAD** i helpu gyda thaliad penodol (e.e. Blaendal Rhent/Rhent ymlaen llaw) os IE, ewch i **gwestiwn 12.**
- ☐ **TALIAD PARHAUS** i helpu gyda'ch rhent wythnosol

**Dywedwch wrthym pam eich bod yn gwneud cais am Daliad Tai Dewisol?** (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ **Mae fy mudd-dal yn cael ei leihau oherwydd bod gen i ystafell wely sbâr.**
- ☐ **Caf fy effeithio gan y Cap Budd-daliadau.**
- ☐ **Caf fy effeithio gan ddidyniad annibynnydd/lleihad mewn cyfraniad cost tai Credyd Cynhwysol.**
- ☐ **Caiff fy mudd-dal ei leihau oherwydd y gyfradd Lwfans Tai Lleol.**
- ☐ **Caf fy effeithio gan Ostyngiadau Tapr Incwm.**
- ☐ **Cyfyngiadau swyddog rhent fel cyfradd cyfeirio lleol neu lety a rennir.**
- ☐ **Mae angen cymorth ariannol arnaf tra byddaf yn chwilio am gyflogaeth neu fwy o gyflogaeth.**
- ☐ **Mae'r Adran Dai yn fy helpu gyda mater digartrefedd posibl ac mae gen i ddiffyg yn y taliad rhent.**
- ☐ **Ni allaf fforddio talu'r gwahaniaeth rhwng fy rhent a'm Budd-dal Tai/Cost Tai Credyd Cynhwysol am resymau eraill. Dywedwch wrthym pam yma.**

**Faint o gymorth ariannol ychwanegol y mae arnoch chi ei angen?** **£**    **yr wythnos**

**2.** **A yw eich cartref wedi'i addasu i gynorthwyo ag anabledd sy'n effeithio arnoch chi neu aelod o'ch teulu?**
Os 'Ydi', rhowch fanylion yr addasiadau a'r rhesymau pam bod arnoch eu hangen.

**Ydi** ☐ **Nac ydi** ☐

**3.** **Ydych chi'n rhannu'r gofal am blentyn neu blant, ond ddim yn cael budd-dal Plant ar eu cyfer?**
Os 'Ydw', rhowch dystiolaeth (e.e. gorchymyn llys yn caniatáu gofal).
Os 'Ydw', ond nad oes gennych orchymyn llys, anfonwch gopi o lythyr gan gyn bartner neu unrhyw brawf arall.

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

| Enw | Dyddiad Geni | Cyfeiriad Cartref Arferol | Pa mor aml maent yn aros gyda chi? |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Pa mor aml y bu i'ch plentyn / plant aros gyda chi yn y 12 mis diwethaf?**

**4.** **Meini Prawf Maint Budd-dal Tai/Lleihad Tanfeddiannaeth/mwy o ystafelloedd nag sy'n ofynnol?** Llenwch y cwestiwn hwn os oes gan eich cartref fwy o ystafelloedd nag a ganiateir gan reolau Budd-dal Tai. Mae hyn yn cynnwys tenantiaid yn y Sector Rhentu Preifat, ac yn y Sector Rhentu Cymdeithasol. Yn y Sector Cymdeithasol, tenantiaid sy'n cael eu heffeithio gan y *Cymhorthdal Ystafell Sbâr/Lleihad Tanfeddiannaeth.* Tenantiaid yn y Sector Preifat sydd â mwy o ystafelloedd nag sy'n ofynnol. Os 'Oes', a bod gan eich cartref fwy o ystafelloedd nag a ganiateir gan reolau Budd-dal Tai, nodwch isod.

**Oes** ☐ **Nac oes** ☐

**5.** **Oes gennych chi neu'ch partner ofalwr sy'n byw yn rhywle arall, ond sy'n darparu gofal i chi neu eich partner dros nos yn eich cartref a bod gennych ystafell wely ar gael?** Os 'Oes', rhowch fanylion a ddylai gynnwys enw a chyfeiriad y gofalwr/wyr, pa mor aml y maent yn aros gyda chi ac a ydynt yn cael Lwfansau Gofalwr am ofalu amdanoch.

**Oes** ☐ **Nac oes** ☐

**6.** **Ydych chi wedi ceisio dod o hyd i lety arall rhatach?**
Os 'Ydw', rhowch fanylion. Os gwnaethoch ddod o hyd i lety rhatach, ond na wnaethoch symud, eglurwch pam isod.
Os 'Nac ydw', allwch chi esbonio pam nad ydych wedi edrych am lety rhatach.

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

Caiff Cofrestr Tai Bwrdeistref Conwy (ULIMaD) ei reoli gan Ddatrysiadau Tai Conwy a gellir cysylltu â hwy ar 0300 124 0050 neu drwy e-bost ar sarth@cartreficonwy.org
Bydd Datrysiadau Tai Conwy hefyd yn rhoi cymorth a chyngor i gwsmeriaid ar Dai, yn gymdeithasol ac yn breifat, a gellir cysylltu â hwy yn 41 Conway Road, Bae Colwyn, LL29 7AA, rhif ffôn 0300 124 0050. Oriau swyddfa 9.30am - 4pm dydd Llun - dydd Gwener.

**7. Os ydych yn Denant Tai Cymdeithasol ym Mwrdeistref Conwy ar hyn o bryd ac yr effeithir arnoch gan y gostyngiad tanfeddiannaeth, a ydych wedi cofrestru gydag Un Llwybr Mynediad at Dai (ULIMaD) ar gyfer llety amgen llai?**
'Os 'Ydw', rhowch fanylion a ddylai gynnwys y dyddiad y gwnaethoch gofrestru ar gyfer y llety llai a'r lleoliad y byddech yn derbyn i'r llety hwn fod ynddo.
Os 'Nac ydw', eglurwch eich rhesymau dros beidio â gwneud hyn.

**Ydw** ☐
**Nac ydw** ☐

Os ydych chi wedi cael cynnig llety tai cymdeithasol/Tai Cymdeithasol amgen a'ch bod wedi ei wrthod, rhowch y manylion isod:

**8. Dywedwch wrthym a fyddai'n achosi problemau i chi symud o'r ardal lle rydych yn byw ynddi rŵan,** e.e. mae angen i chi fyw yn agos at feithrinfa/lleoliad gofal plant penodol, ysgol, ysbyty neu wasanaethau eraill, neu os ydych yn derbyn gofal neu'n darparu gofal i aelod o deulu nad ydynt yn byw gyda chi.

**Byddai** ☐
**Na fyddai** ☐

**9. Os oes gennych landlord preifat, ydych chi wedi gofyn iddo a fyddai'n ystyried gostwng eich rhent?**
Os 'Ydw', dywedwch wrthym isod beth oedd y canlyniad.
Os 'Nac ydw', allwch chi ddweud wrthym pam nad ydych wedi ystyried hyn?

**Ydw** ☐
**Nac ydw** ☐

**A oes gennych unrhyw wrthwynebiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gysylltu â'ch landlord preifat i weld a oes modd lleihau eich rhent?** Os 'Oes', dywedwch wrthym pam isod.

**Oes** ☐
**Nac oes** ☐

**A oes gennych unrhyw ôl-ddyledion rhent?**
(Atebwch os ydych yn denant cymdeithasol neu breifat).
Os 'Oes', faint? (anfonwch unrhyw dystiolaeth o hyn) £

**Oes** ☐
**Nac oes** ☐

**A yw eich landlord wedi cymryd unrhyw gam cyfreithiol yn eich erbyn i adennill yr ôl-ddyledion hyn?**
Os 'Ydi', rhowch fanylion o'r camau a gymerwyd.

**Ydi** ☐

**Nac ydi** ☐

**10.** **Dywedwch wrthym a oes gennych unrhyw gynlluniau i helpu eich sefyllfa yn yr hirdymor,** megis cynyddu eich incwm neu symud tŷ, hyd yn oed os ydych ond yn cofrestru ar gyfer eiddo llai o faint (gweler Cwestiwn 7). Bydd unrhyw dystiolaeth y gallwch ei darparu yn ein helpu i wneud penderfyniad.

**11.** Mae cyllideb gyfyngedig i gronfa Taliad Tai Dewisol a roddwyd i'r Cyngor gan y Llywodraeth, ac ***ni fyddai'n bosibl i'r Cyngor ddefnyddio Taliad Tai Dewisol i helpu pawb nad ydynt yn derbyn Budd-dal Tai/costau Credyd Cynhwysol i dalu eu rhent.*** Os nad yw'r un o'r cwestiynau wedi disgrifio eich gwir amgylchiadau, dywedwch wrthym isod pam rydych o'r farn bod eich hawliad yn eithriadol

## DIM OND YMGEISWYR SYDD WEDI NODI "TALIADAU UNTRO" YNG NGHWESTIWN 1 DDYLAI GWBLHAU CWESTIYNAU 12 I 23

**12.** **Ticiwch y taliad rydych yn gwneud cais amdano (BYDD TYSTIOLAETH YN OFYNNOL).**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | **Rhent ymlaen llaw** | **Cyfanswm sy'n ddyledus** | £ | **Cyfanswm y gwnaed cais amdano** | £ |
| ☐ | **Blaendal** | **Cyfanswm sy'n ddyledus** | £ | **Cyfanswm y gwnaed cais amdano** | £ |
| ☐ | **Arall** | **Cyfanswm sy'n ddyledus** | £ | **Cyfanswm y gwnaed cais amdano** | £ |

**Os arall, nodwch ar gyfer beth mae'r taliad:**

**13.** **Os ydych chi'n gadael eich cyfeiriad presennol, nodwch pam:**

**14. Ydych chi wedi cael rhybudd i adael / rhybudd ceisio meddiant?**
'Os 'Ydw', darparwch gopi o hyn a'r rheswm pam y'i cyflwynwyd.

**Ydw** ☐
**Nac Ydw** ☐

**15. Wnaethoch chi dalu rhent ymlaen llaw am eich tenantiaeth bresennol?**

Os 'Do', faint? £

**Do** ☐
**Naddo** ☐

**16. Wnaethoch chi dalu blaendal rhent am eich tenantiaeth bresennol?**

**Os 'Do', faint?** £

**Do** ☐
**Naddo** ☐

**17. Fyddwch chi'n derbyn eich blaendal rhent yn ôl?**
Os 'Byddaf' nodwch y dyddiad y caiff ei ddychwelyd atoch.
Os na fydd yn cael ei ddychwelyd atoch, eglurwch pam.

**Byddaf** ☐
**Na fyddaf** ☐

**18. A oes gennych unrhyw gynilon y gellid eu defnyddio i ddiwallu'r angen hwn (neu ran o'r angen hwn)?** Os 'Oes'. rhowch fanylion:

**Oes** ☐
**Nac oes** ☐

**19. Ydych chi wedi cysylltu â Datrysiadau Tai Conwy (Swyddogion Digartrefedd) am help?**

Os 'Ydw' beth wnaethon nhw ei ddweud?

**Ydw** ☐
**Nac ydw** ☐

**20. Ydych chi wedi gofyn am gymorth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu Gronfa Cymorth Dewisol/Bond Nacro?**
Os 'Ydw', rhowch fanylion y canlyniad.
Os 'Nac ydw', a oes unrhyw reswm pam?

**Ydw** ☐
**Nac ydw** ☐

**21.** **Ydych chi wedi gofyn am gymorth gyda blaendal rhent/rhent ymlaen llaw/costau tai eraill gan unrhyw un arall?**
Os 'Ydw', rhowch fanylion a'r canlyniad.

**Ydw** ☐
**Nac ydw** ☐

**22.** **Beth yw cyfeiriad yr eiddo rydych chi'n gwneud cais am rent ymlaen llaw/ blaendal rhent ar ei gyfer am y swm o rent a godir arnoch?**

**23.** **Cynlluniau diogelu blaendal tenantiaeth**

Mae cynlluniau diogelu blaendal tenantiaeth yn sicrhau y bydd tenantiaid yn cael eu blaendaliadau yn ôl ar ddiwedd y denantiaeth os ydynt wedi cadw at amodau'r cytundeb tenantiaeth a heb ddifrodi'r eiddo. Mae'n rhaid i landlordiaid ddiogelu blaendaliadau eu tenantiaid yn defnyddio cynllun diogelu blaendal tenantiaeth os ydynt wedi gosod yr eiddo ar denantiaeth byrddaliad sicr ar ôl 6 Ebrill 2007.

Mae'n rhaid i landlordiaid neu asiantau ddefnyddio un o'r tri chynllun diogelu blaendal tenantiaeth cymeradwy i ddiogelu blaendaliadau tenantiaid lle mae'r amodau hyn yn berthnasol. Os bydd unrhyw gynllun arall yn cael ei ddefnyddio, nid yw'r blaendaliadau wedi eu diogelu dan gyfraith. Y tri chynllun cymeradwy yw:

- Y Gwasanaeth Diogelu Blaendaliadau (DPS) ☐
- MyDeposits ☐
- Cynllun Blaendal Tenantiaeth (TDS) ☐

**Gofynnwch i'ch landlord / asiant i gadarnhau pa gynllun diogelu blaendal y byddant yn ei ddefnyddio a thiciwch y blwch perthnasol uchod.**

## DYLAI POB YMGEISYDD GWBLHAU CWESTIYNAU 24-26

**24.** **Gwybodaeth am eich incwm chi ac incwm eich partner, gwariant a dyledion (os o gwbl).**

Bydd yr wybodaeth hon yn ein helpu i benderfynu a oes angen cymorth ariannol pellach arnoch chi i gwrdd â'ch costau tai.
Cymerwch eich amser a chofiwch gynnwys popeth. Mae'r holl wybodaeth a roddwch i ni yn gyfrinachol a byddwn yn ei defnyddio i weld a oes modd i ni roi cymorth ychwanegol i chi.

**Nodwch nifer yr oedolion yn eich cartref** ☐

**Nifer y plant yn eich cartref** ☐

| INCWM - rhowch ffigurau wythnosol | |
|---|---|
| Cyflog ar ôl Didyniadau | £ |
| Budd-dal Plant | £ |
| Credyd Treth Plant | £ |
| Credyd Treth Gwaith | £ |
| Pensiwn y Wladwriaeth | £ |
| Pensiynau Galwedigaethol | £ |
| Pensiynau Preifat | £ |
| Cymhorthdal Incwm | £ |
| Lwfans Ceisio Gwaith | £ |
| Lwfans Cyflogaeth a Chymorth/ Budd-dal Analluogrwydd | £ |
| Lwfans Byw i'r Anabl/ Taliadau Annibyniaeth Bersonol | £ |
| Lwfans Gofalwyr | £ |
| Credyd Cynhwysol (Cyfanswm) | £ |
| Cynhaliaeth a dderbyniwyd | £ |
| Cyfraniad gan bobl eraill yn eich cartref (perthynas i chi sy'n oedolyn nad yw'n ddibynnol ar unrhyw un). Os oes gan y sawl nad ydynt yn ddibynnol dreuliau anochel, rhowch fanylion isod ffrind yn byw gyda chi Gwybodaeth bersonol bellach | £ |
| Rhent gan letywr/tenant | £ |
| Arall - Rhowch fanylion isod | £ |
| | £ |
| **CYFANSWM** | £ |
| Cyfalaf / cynilion | Swm |
| | £ |
| | £ |
| | £ |
| **CYFANSWM** | £ |

Unrhyw wybodaeth bellach mewn perthynas ag incwm / gwariant

| GWARIANT - rhowch ffigurau wythnosol | |
|---|---|
| Rhent | £ |
| Treth y Cyngor | |
| Nwy | |
| Trydan | |
| Biliau Dŵr | |
| Ffôn tŷ / ffôn symudol | |
| Trwydded / Rhentu Teledu | |
| Teledu Lloeren (e.e. Sky) | |
| Mynediad i'r Rhyngrwyd | |
| Yswiriant Bywyd | |
| Yswiriant Cartref | |
| Tocynnau bws / trên | |
| Petrol | |
| Yswiriant Car | |
| Treth car / MOT | |
| Costau dietegol arbennig | |
| Prydau ysgol | |
| Sbectolau / Lensys Llygaid | |
| Y cartref (gan gynnwys pethau ymolchi a deunyddiau glanhau) | |
| Dillad / esgidiau | |
| Clytiau | |
| Taliadau Gofal Plant | |
| Bwyd | |
| Ad-daliad Benthyciad Cyllidebu Adran Gwaith a Phensiynau | |
| Cynhaliaeth (e.e. taliadau'r Asiantaeth Cynnal Plant) | |
| Benthycwyr stepen drws | |
| Costau llys a dirwyon | |
| Catalogau/archeb bost | |
| Ad-daliadau Hurbryniant | |
| Ad-daliadau cardiau credyd / siopau | |
| Ad-daliadau gorddrafft Banc/ Cymdeithas Adeiladu | |
| Unrhyw wariant arall (Nodwch am beth) | |
| | |
| **CYFANSWM** | £ |

**Ydych chi wedi ceisio trafod newid trefnau eich ad-daliadau neu'ch dyledion?** Os 'ydw', rhowch fanylion. **Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

**Hoffech chi i'r Swyddfa Budd-daliadau gyfeirio eich achos am gyngor ar ddyled at Gyngor ar Bopeth?** **Hoffwn** ☐ **Na hoffwn** ☐

**25.** **A oes unrhyw fanylion pellach am eich incwm a'ch gwariant nad ydych eisoes wedi eu cynnwys?**
Os 'Oes', nodwch y manylion isod:

**Oes** ☐
**Nac oes** ☐

## 26. DATGANIAD

Darllenwch y datganiad hwn yn ofalus cyn ei lofnodi a'i ddyddio.

- **Rwy'n datgan** bod yr wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon yn gywir.
- **Rwy'n cytuno** y gall y Cyngor wneud ymholiadau angenrheidiol i wirio'r wybodaeth a roddais.
- **Deallaf os bydd unrhyw wybodaeth a roddaf yn anghywir y bydd yn rhaid i mi ad-dalu unrhyw Daliad Tai Dewisol a ddyfarnwyd i mi yn ôl i'r Cyngor**

**Llofnod yr Hawliwr Budd-daliadau:**

**Llofnod Partner:**

**Dyddiad:** / /

**Datganiad yr unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen ar ran y tenant**

**Enw mewn print bras:**

**Llofnod:**

**Perthynas i'r Ymgeisydd:**

**Dyddiad:** / /

**Anfonwch y ffurflen hon a'r dystiolaeth angenrheidiol i'r: Swyddfeydd Budd-daliadau, Gwasanaethau Asesiadau Refeniw a Budd-daliadau, Bodlondeb, Bangor Road, Conwy, LL32 8DU, neu fynd ag ef i Swyddfa Budd-daliadau Ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a nodir ar dudalen 12.**

# Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal

Mae'r cwestiynau yn yr adran hon er dibenion ystadegol, monitro a datblygu gwasanaethau. Mae'r holl wybodaeth yn cael ei chadw mewn cronfa ddata gyfrinachol.

Nid oes rhaid i chi lenwi'r holiadur hwn.

**Amdanoch Chi**

**Eich rhyw:** Gwryw ☐ Benyw ☐

**Sut fyddech chi'n disgrifio eich tarddiad ethnig?**

**Gwyn**

Prydeinig ☐

Gwyddelig ☐

Cymraeg ☐

Unrhyw gefndir gwyn arall

Rhowch fanylion

**Cymysg**

Gwyn a Du Caribïaidd ☐

Gwyn a Du Affricanaidd ☐

Gwyn ac Asiaidd ☐

Unrhyw gefndir cymysg arall ☐

Rhowch fanylion

**Asiaidd neu Asiaidd**

Indiaidd ☐

Pacistanaidd ☐

Bangladeshaidd ☐

**Du Prydeinig neu Brydeinig Du**

Caribïaidd ☐

Affricanaidd ☐

**Tsieineaidd neu grŵp Ethnig arall**

Tseiniaidd ☐

Unrhyw gefndir Asiaidd, Du arall. Unrhyw grŵp ethnig arall. Rhowch fanylion

**Oedran** 16 i 24 ☐ 25 i 34 ☐ 35 i 44 ☐ 45 i 54 ☐ 55 i 64 ☐ 65 oed a hŷn ☐

**A oes gennych unrhyw salwch hirdymor, problem iechyd neu anabledd sy'n effeithio ar eich gweithgareddau o ddydd i ddydd?** **Oes** ☐ **Nac oes** ☐

**Diolch am lenwi'r ffurflen adborth hon.**

# Swyddfeydd Budd-daliadau Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Prif swyddfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a chyfeiriad**

Swyddfa Budd-daliadau

Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau, Bangor Road, Bodlondeb, Conwy LL32 8DU
Dydd Llun i ddydd Iau 8.45am - 5:15pm - Dydd Gwener 8.45am – 4.45pm Ffôn: 01492 576491

---

**Swyddfeydd Budd-daliadau Tai Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Swyddfa Ardal

Refeniw a Budd-daliadau, y Gwasanaeth Asesu, Neuadd y Dref, George Street, Llandudno LL30 2ST
Dydd Llun i ddydd Iau 8.45am - 5:15pm - Dydd Gwener 8.45am – 4.45pm Ffôn: 01492 576491

Swyddfa Ardal

Refeniw a Budd-daliadau, y Gwasanaeth Asesu, 4A Coed Pella Road, Bae Colwyn LL29 8LP
Dydd Llun i ddydd Iau 9.00am – 5.00pm - Dydd Gwener 9.00am – 4.45pm Ffôn: 01492 576491

*Byddwn yn symud Swyddfa Budd-dal Ardal Bae Colwyn ddiwedd mis Ebrill 2016/mis Mai 2016 i - Llawr Cyntaf, Llyfrgell Bae Colwyn, Ffordd Coetir Orllewinol, Bae Colwyn LL29 7DH*
*Dydd Llun, dydd Mercher, dydd Iau 9.00am – 5.15pm - Dydd Mawrth 10.00am – 5.15pm Dydd Gwener 9.00am – 4.45pm*

Swyddfa Ardal

Refeniw a Budd-daliadau, y Gwasanaeth Asesu, Y Llyfrgell, Plas yn Dre, Llanrwst LL26 0DF
Dydd Mawrth 10am – 1pm Ffôn: 01492 576491

# Cyfeiriadau defnyddiol

**Adrannau eraill y Llywodraeth**

The Pension Service
Y Gwasanaeth Pensiwn
Blwch Post 8
Abertawe SA80 8AH
Ffôn: 0845 6060265

Y Ganolfan Waith
45a Ffordd Conwy
Bae Colwyn
Conwy
LL29 7AU
Ffôn: 0845 6043719
0345 6043719

Department for Work
and Pensions
PO Box 2239
Chester
CH99 1WZ

Phone: 0845 6088545
0345 6088545

Gwasanaeth y Swyddog Rhenti
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9R2
Ffôn: 0300 0625106

Y Ganolfan Waith
29/31 Chapel Street
Llandudno
Conwy
LL30 2SY
Ffôn: 0845 6043719
0345 6043719

Cronfa Cymorth Dewisol Cymru
Cronfa yng Nghymru
Blwch Post 2377,
Wrecsam,
LL11 0LG
Ffôn: 0800 859 5924

**Sefydliadau Eraill**

Shelter Cymru
19 Stryd Bedford
Y Rhyl
LL18 1SY
Ffôn: 01745 361444

Mae Shelter Cymru yn darparu cyngor a gwasanaethau cyfrinachol ac annibynnol am ddim i bobl mewn angen tai er mwyn mynd i'r afael ag argyfyngau tai a materion cysylltiedig.

---

Cyngor ar Bopeth
Swyddfa Ardal
Eryl Wen, Eryl Place,
Llandudno
LL30 2TX
Ffôn: 0844 4772020

Gwasanaeth Cyngor
Gwledig
The Bon, Stryd y Bont
Llanrwst
LL26 0ET
Ffôn: 01492 641313

Mae'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn helpu pobl i ddatrys eu problemau cyfreithiol, ariannol a phroblemau eraill drwy ddarparu cyngor diduedd, annibynnol a chyfrinachol am ddim

---

Undeb Credyd Gogledd Cymru
168 Ffordd Conwy
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9DU
Ffôn: 0333 2000 601

Mae ymaelodi ag Undeb Credyd Gogledd Cymru yn rhoi cyfle i drigolion Sir Conwy gael mynediad at wasanaethau ariannol rhesymol a moesegol, gan gynnwys cyfrifon cyfredol, cyfrifon cynilo a benthyciadau llog isel.

---

Age Concern
12-14 Sgwâr y Neuadd
Dinbych
LL16 3NV
Ffôn: 01745 816947

Mae Age Concern yn darparu gwybodaeth a chyngor i'r henoed am fudd-daliadau gofal, gwahaniaethu ar sail oedran a hyfforddiant.